

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2023

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Eluned Morgan AS Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

17 Chwefror 2023

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306 ("y Prif Reoliadau").
- 1.2 Mae'r Prif Reoliadau'n caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG (fel y bo'n berthnasol) yng Nghymru godi ac adennill ffioedd am wasanaethau gofal iechyd perthnasol sy'n cael eu darparu i ymwelwyr tramor nad ydynt yn byw fel arfer yn y Deyrnas Unedig (DU), oni bai bod yr ymwelydd tramor neu'r gwasanaeth y mae'n ei gael yn destun esemptiad rhag ffioedd.
- 1.3 Mae Rheoliad 4D(1) o'r Prif Reoliadau yn darparu na chodir ffi ar bersonau sy'n gwneud cais hwyr i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE am wasanaethau perthnasol a ddarperir tra bod eu cais yn cael ei benderfynu. Fodd bynnag, mae rheoliad 4D(4) yn darparu ymhellach, os yw'r cais yn aflwyddiannus, y bydd ffi yn cael ei chodi am y gwasanaethau perthnasol hynny a ddarparwyd iddynt yn ystod y cyfnod y gwnaed eu cais a'r dyddiad y penderfynwyd yn derfynol ar y cais.
- 1.4 Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r gofyniad i godi ffi ar ymgeiswyr hwyr aflwyddiannus i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog am driniaeth GIG a ddarparwyd iddynt wrth i'w cais gael ei ystyried, ac yn ei gwneud yn ofynnol o ran unrhyw ffioedd am wasanaethau o'r fath:
 - 1.4.1 Os ydynt wedi'u codi'n barod, rhaid peidio â'u hadennill; neu
 - 1.4.2 Os ydynt wedi'u talu'n barod, fod yn rhaid eu had-dalu.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, mae'r Llywydd wedi cael gwybod y bydd yr offeryn hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod. Mae angen ei gychwyn yn gynnar er mwyn sicrhau na chodir unrhyw ffioedd diangen a hefyd i sicrhau bod y Prif Reoliadau yn adlewyrchu darpariaethau Erthygl 18 o'r Cytundeb Ymadael ac Erthygl 17 o Gytundeb Gwahanu EFTA y'r AEE.
- 2.2 Er bod y Rheoliadau hyn yn gymwys yn y dyfodol (h.y. ar y dyddiad y daw'r diwygiadau i rym, neu ar ôl hynny) mae elfen ôl-weithredol i'r Rheoliadau gan eu bod yn darparu bod rhaid peidio ag adennill unrhyw ffioedd a godwyd eisoes am driniaeth GIG i ymgeiswyr hwyr aflwyddiannus yn ystod cyfnod ystyried eu cais, a bod rhaid ad-dalu unrhyw daliadau a dderbyniwyd eisoes Mae'r cyfiawnhad polisi ar gyfer y Rheoliadau hyn i'w weld ym mharagraff 4.1 isod.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud o dan adran 124 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (Deddf 2006), sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer codi ac adennill taliadau

gan bersonau nad ydynt yn "byw fel arfer" yn y Deyrnas Unedig ar gyfer gwasanaethau GIG.

- 3.2 Mae'r offeryn hefyd yn cael ei wneud o dan adrannau 203(9) a (10) o Ddeddf 2006 ac mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Bydd y Rheoliadau'n sicrhau bod y Prif Reoliadau yn adlewyrchu darpariaethau Erthygl 18 o'r Cytundeb Ymadael ac Erthygl 17 o'r Cytundeb Gwahanu o ran codi tâl ar gyfer triniaeth ar ymgeiswyr hwyr i'r Cynllun Preswyllo Sefydlog, ac yn sicrhau bod ymgeiswyr hwyr aflwyddiannus yn cael eu trin yr un peth â'r ymgeiswyr hynny a gyflwynodd eu cais i'r Cynllun Preswyllo Sefydlog mewn pryd.

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori cyn gwneud y Rheoliadau. Ystyrir nad oes angen ymgynghori ar y diwygiadau arfaethedig gan eu bod yn gweithredu cytundebau rhyngwladol y DU sy'n berthnasol i'r DU gyfan ac felly mae rhwymedigaeth ar Gymru i'w gweithredu a chadw atynt.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr Opsiynau

6.1 Ystyriwyd dau opsiwn:

- **Opsiwn 1:** Gwneud dim. Cadw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306) mewn grym fel ag y maent ar hyn o bryd.
- **Opsiwn 2:** Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989.

Opsiwn 1: Gwneud dim

6.2 Byddai'r opsiwn hwn yn cadw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (SI 1989/306) ("y Prif Reoliadau") mewn grym fel ag y maent ar hyn o bryd, a thrwy hynny'n peidio â'u diwygio i adlewyrchu darpariaethau'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Gwahanu o ran ymgeiswyr hwyr i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog.

Costau a manteision

- 6.3 Mae'r diwygiad yn ymwneud â chodi ffi ar unigolion a gyflwynodd gais hwyr i'r Cynllun Preswyllo Sefydlog ac y gwrthodwyd eu cais wedi hynny, am driniaeth a gafwyd wrth i'w cais gael ei ystyried. Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru na ddarparwyd triniaeth na chodi ffi ar unigolion â'r statws hwn hyd yma. Nid oes disgwyl y byddai nifer yr unigolion â'r statws hwn sy'n cael eu trin ac y codir ffi arnynt yn newid yn sylweddol yn y dyfodol.
- 6.4 Byddai cadw'r ddarpariaeth felly'n arwain at fawr o fuddion i Fyrddau Iechyd Lleol o ran incwm o godi ffi am driniaeth yn y dyfodol.
- 6.5 Byddai cadw'r ddarpariaeth yn golygu nad yw darpariaethau'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Gwahanu o ran ymgeiswyr hwyr i'r Cynllun Preswyllo Sefydlog wedi'u hadlewyrchu yng nghyfraith Cymru, yn yr achos hwn y Prif Reoliadau. Felly byddai gwrthdaro posibl i Lywodraeth Cymru o ran cyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol.

Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989

- 6.6 Byddai'r opsiwn hwn yn diwygio'r Prif Reoliadau i adlewyrchu darpariaethau'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Gwahanu o ran ymgeiswyr hwyr i'r Cynllun Preswyllo Sefydlog. Byddai'r Prif Reoliadau'n cael eu diwygio er mwyn:
- dileu'r gofyniad presennol i godi ffi ar ymgeiswyr hwyr aflwyddiannus i'r Cynllun Preswyllo Sefydlog am driniaeth GIG a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod yr oedd eu cais yn cael ei ystyried;
 - ei gwneud yn ofynnol bod rhaid peidio ag adennill unrhyw ffioedd am wasanaethau o'r fath, os gwnaed rhai; neu os cawsant eu talu, bod rhaid eu had-dalu.

Costau a manteision

- 6.7 Fel y nodir ym mharagraffau 6.3 uchod, mae Byrddau Iechyd Lleol wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru na ddarparwyd triniaeth na chodi ffi ar unrhyw unigolion o'r grŵp dan sylw hyd yma. Felly, nid oes costau i'w had-dalu i unigolion gan Fyrddau Iechyd Lleol yn hyn o beth.
- 6.8 O ystyried bod nifer unigolion o'r statws hwn fydd yn cael triniaeth yn y dyfodol yn debygol o fod yn isel, disgwylir i ddileu'r ddarpariaeth hon gael ychydig iawn o effaith ar incwm y Byrddau Iechyd Lleol yn y dyfodol.
- 6.9 Byddai'r diwygiad hwn, ym marn Llywodraeth Cymru, yn sicrhau bod cyfraith Cymru (yn yr achos hwn y Prif Reoliadau) yn gyson â'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Gwahanu, gan gael gwared ar unrhyw wrthdaro posibl yn hyn o beth o ran cyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol Cymru.
- 6.10 Bydd Byrddau Iechyd Lleol yn parhau i dderbyn dyraniad blynyddol cyfredol o £822,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer trin ymwelwyr o dramor na chaniateir codi ffi arnynt oherwydd cytundebau gofal iechyd dwyochrog. Bydd parhau â'r dyraniad hwn yn gymorth i Fyrddau Iechyd Lleol mewn achosion lle nad oes modd adennill unrhyw gostau gan ymwelwyr o dramor.

7. Asesu'r gystadleuaeth

- 7.1 Does dim disgwyl i'r Rheoliadau effeithio ar gystadleuaeth yng Nghymru na chwaith pa mor gystadleuol yw cwmnïau Cymru.

8. Adolygu ar ôl gweithredu

- 8.1 Nid oes angen adolygiad ar ôl gweithredu gan fod y newidiadau a wneir gan y rheoliadau yn rhoi effaith i gytundebau rhyngwladol.